

2024 Rhif (Cy.)

TRAFFIC FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffyrrdd yr A449 a'r  
A40 (Cyfnewidfa Coldra,  
Casnewydd i Gylchfan Hardwick,  
Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau,  
Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro)  
2024

Gwnaed

5 Ionawr 2024

Yn dod i rym

13 Ionawr 2024

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o gefnffyrrdd yr A449 a'r A40, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrrdd oherwydd bod llwythi anwahanadwy annormal yn cael eu cludo.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi a chychwyn**

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffyrrdd yr A449 a'r A40 (Cyfnewidfa Coldra, Casnewydd i Gylchfan Hardwick, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2024 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 13 Ionawr 2024.

**Dehongli**

2. Yn y Gorchymyn hwn—

2024 No. (W.)

ROAD TRAFFIC, WALES

The A449 & A40 Trunk Roads  
(Coldra Interchange, Newport to  
Hardwick Roundabout,  
Monmouthshire) (Temporary  
Prohibition of Vehicles, Cyclists  
and Pedestrians) Order 2024

Made

5 January 2024

Coming into force

13 January 2024

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant lengths of the A449 and A40 trunk roads, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk roads should be prohibited due to the transportation of abnormal indivisible loads.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

**Title and commencement**

1. The title of this Order is the A449 & A40 Trunk Roads (Coldra Interchange, Newport to Hardwick Roundabout, Monmouthshire) (Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists and Pedestrians) Order 2024 and this Order comes into force on 13 January 2024.

**Interpretation**

2. In this Order—

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrrdd (Cyfngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “y cefnffyrdd” (“*the trunk roads*”) yw cefnffordd yr A449 Casnewydd i Gaerwrangon a chefnffordd yr A40 Rhaglan i Lanymddyfri;

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith o gludo'r llwythi anwahanadwy annormal sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “y cyfnod cau” (“*closure period*”) yw cyfnodau sbeidiol sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 13 Ionawr 2024 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

## Gwaharddiadau

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod y cyfnod cau, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod y cyfnod cau, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

## Cymhwysedd

**6.** Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

## Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

5 Ionawr 2024



Nicci Hunter  
Arweinydd y Tîm Busnes  
Llywodraeth Cymru

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the transportation of the abnormal indivisible loads giving rise to this Order;

“the trunk roads” (“*y cefnffyrdd*”) means the A449 Newport to Worcester trunk road and the A40 Raglan to Llandovery trunk road;

“closure period” (“*y cyfnod cau*”) means intermittent periods commencing at 20:00 hours on 13 January 2024 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

## Prohibitions

**3.** No person may, during the closure period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the lengths of the trunk roads specified in the Schedule to this Order.

**4.** No person may, during the closure period, ride any pedal cycle on the lengths of the trunk roads specified in the Schedule to this Order.

**5.** No pedestrian may, during the closure period, proceed on the lengths of the trunk roads specified in the Schedule to this Order.

## Application

**6.** The prohibition in articles 3, 4 and 5 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

## Duration of this Order

**7.** The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated the

5 January 2024



Nicci Hunter  
Business Team Leader  
Welsh Government

## YR ATODLEN

### Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro

Y darn o gerbytffordd tua'r gogledd yr A449 sy'n ymestyn o gerbytffordd gylchredol Cyffordd 24 (Cyfnewidfa Coldra), Casnewydd hyd at drwyniad ffordd ymuno tua'r gogledd yr A449 a'r A40 (Cyfnewidfa Rhaglan).

Y darn o ffordd ymuno neilltuedig tua'r dwyrain yr M4/A449 wrth Gyffordd 24 (Cyfnewidfa Coldra), Casnewydd sy'n uno â cherbytffordd tua'r gogledd yr A449.

Y darn o ffordd ymuno tua'r gogledd yr A449 (Cyfnewidfa Brynbuga) o'r A472.

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin yr A40 sy'n ymestyn o'i thrwyniad â ffordd ymuno tua'r gorllewin Cyfnewidfa Rhaglan hyd at ei chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Hardwick.

Y darn o ffordd ymuno tua'r gorllewin yr A449/A40 (Cyfnewidfa Rhaglan).

## SCHEDULE

### Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists and Pedestrians

The length of the A449 northbound carriageway that extends from the circulatory carriageway of Junction 24 (Coldra Interchange), Newport to the nosing of the northbound entry slip road of the A449 and A40 (Raglan Interchange).

The length of the dedicated M4/A449 eastbound entry slip road at Junction 24 (Coldra Interchange), Newport that merges with the A449 northbound carriageway.

The length of the A449 (Usk Interchange) northbound entry slip road from the A472.

The length of the A40 westbound carriageway that extends from its nosing with the westbound entry slip road of Raglan Interchange to its junction with the circulatory carriageway of Hardwick Roundabout.

The length of the A449/A40 (Raglan Interchange) westbound entry slip road.